Gwasanaeth Awyr Agored

DofE DARPARWR GWEITHGAREDDAU CYMERADWY

ALLDEITHIAU AGORED ARIAN

GWYBODAETH BELLACH



Cyn dod ar yr alldaith bydd angen i chi lenwi y ffurflen archebu sydd ar y wefan, a'i ddychwelyd i ni.

Ar gyfer alldeithiau Arian mae tri ddewis o leoliad, Gwersyll yr Urdd Glan-Llyn ger Y Bala, ar gyfer alldeithiau yn Eryri, Gwersyll yr Urdd Caerdydd ar gyfer alldeithiau ym Mannau Brycheiniog, neu Gwersyll yr Urdd Llangrannog ar gyfer alldeithiau ar arfordir Sir Benfro. Bydd angen i chi nodi eich dewis cyntaf ar y ffurflen archebu a byddwn yn gwneud ein gorau i drefnu alldaith yn eich dewis cyntaf. Rydym yn cynnig alldeithiau yn ystod gwyliau ysgol, gwelwch ein gwefan am y dyddiadau yma, a nodwch eich dewis cyntaf ag ail ar y ffurflen archebu.

Cost ar gyfer alldeithiau Arian yw £200 y pen yr alldaith, gyda gostyngiad o 20% am archebu y ddwy alldaith gyda ni cyn 31 Mai 2016. Gallwn gynnig gostyngiadau pellach i grwpiau.

Mae'r gost yn cynnwys;

- trafnidiaeth o/i brif orsaf drên agosaf
- gwely a brecwast a bwyd am y noson gyntaf
- hyfforddiant a goruchwyliaeth dros y 4 diwrnod
- benthyg offer am yr alldaith
- cost gwersylla

---

awyragored@urdd.org
urdd.org/gwasanaethawyragored
01678 541017

Gwasanaeth Awyr Agored

DofE DARPARWR GWEITHGAREDDAU CYMERADWY

Alldaith Ymarfer – lleoliad i'w benderfynu (Eryri, Bannau Brycheiniog neu Arfordir Sir Benfro)

Yn fras dyma fydd cynnwys y 4 diwrnod

Dydd 1 – Mewn lleoliad preswyl (Glan-Llyn, Caerdydd neu Llangrannog) Cyrraedd, Cynllunio a Paratoi Alldaith, Sortio Offer, Pacio Bagiau, Siopa Bwyd

Dydd 2 i 4 - Alldaith, bydd un o'n hyfforddwyr yn cerdded gyda chi yn ystod y diwrnod cyntaf i roi hyfforddiant ar waith map. Byddwn hefyd yn y gwersyll ar y noson gyntaf yn eich helpu a dysgu i godi pebyll a defnyddio stof yn gywir. Wedi hyn bydd yr hyfforddwr yn eich goruchwylio o bell
Bydd sesiwn adborth ar ddiwedd yr alldaith i roi cymorth i chi baratoi at yr alldaith derfynol



Alldaith Ymarfer – lleoliad i'w benderfynu (Eryri, Bannau Brycheiniog neu Arfordir Sir Benfro)

Yn fras dyma fydd cynnwys y 4 diwrnod

Dydd 1 – Mewn lleoliad preswyl (Glan-Llyn, Caerdydd neu Llangrannog) Cyrraedd, Cynllunio a Paratoi Alldaith, Sortio Offer, Pacio Bagiau, Siopa Bwyd

Dydd 2 i 5 - Alldaith, bydd un o'n hyfforddwyr yn eich goruchwylio o bell drwy gydol yr alldaith.

---

awyragored@urdd.org
urdd.org/gwasanaethawyragored
01678 541017